Senedd Cymru
**Busnes y Senedd**

# Canllawiau ar y modd priodol o gynnal busnes y Senedd

## Cyhoeddwyd gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 6.17

Mehefin 2023

## Canllawiau ychwanegol ar weithrediad trafodion y Cyfarfod Llawn yn ystod y Cytundeb Cydweithio

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd Cymru: **www.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Ysgrifenyddiaeth y Siambr**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **UnedGydgysylltu@senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Busnes y Senedd**

# Canllawiau ar y modd priodol o gynnal busnes y Senedd

## Cyhoeddwyd gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 6.17

Mehefin 2023

## Canllawiau ychwanegol ar weithrediad trafodion y Cyfarfod Llawn yn ystod y Cytundeb Cydweithio

# Cynnwys

**Y Cytundeb Cydweithio 2021 .......... 5**

**Busnes y Cyfarfod Llawn .......... 6**

Cwestiynau llafar .......... 6

Datganiadau llafar .......... 6

Dadleuon .......... 6

**Ystyriaethau pellach .......... 7**

**Atodiad: Aelodau Dynodedig (Mehefin 2023) .......... 8**

# Y Cytundeb Cydweithio 2021

**1.** Dechreuodd y Cytundeb Cydweithio ('y Cytundeb') rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru ar 1 Rhagfyr 2021. Mae'n cynnwys ystod o feysydd polisi y bydd Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn gweithio arnynt gyda'i gilydd am gyfnod o dair blynedd, yn ogystal â chytundeb i Blaid Cymru hwyluso pasio cyllidebau Llywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod hwn.

**2.** Fel rhan o'r Cytundeb, mae Plaid Cymru wedi penodi 'Aelodau Dynodedig' o blith ei Haelodau o'r Senedd. Mae gan yr Aelodau hyn fynediad at gyngor polisi a chyngor cyfreithiol gan weision sifil Llywodraeth Cymru ac maent yn cymryd rhan mewn prosesau gwneud penderfyniadau ar y cyd â Gweinidogion Cymru sy'n ymwneud â'r meysydd a gwmpesir gan y Cytundeb. Mae gan Arweinydd Plaid Cymru rôl debyg drwy fod yn rhan o Fwrdd Trosolwg ar y Cyd sy'n ymwneud â'r Cytundeb. Bydd disgwyl i'r Prif Weinidog hefyd benodi dau Gynghorydd Arbennig a enwebir gan Blaid Cymru.

**3.** Mae Plaid Cymru wedi ymrwymo i ddarparu enwau a chylchoedd gorchwyl yr Aelodau Dynodedig, gan gynnwys pan wneir unrhyw newidiadau i'r rhain. Mae rhestr o'r Aelodau Dynodedig presennol ac eglurhad o'u cyfrifoldebau wedi'u cynnwys fel Atodiad i'r canllaw hwn.

**4.** Mae'r canllawiau ychwanegol a ganlyn sy'n ymwneud â gweithredu busnes y Cyfarfod Llawn yn ystod y Cytundeb wedi'u cyhoeddi gan y Llywydd, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes. Maent yn ategu'r *Canllawiau ar y modd priodol o gynnal busnes y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 6.17*.

# Busnes y Cyfarfod Llawn

## Cwestiynau llafar

**5.** Yn ystod y Cwestiynau i'r Prif Weinidog, bydd Arweinydd Plaid Cymru yn parhau i gael ei alw i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog. Dylai'r cwestiynau ganolbwyntio ar graffu, ac ni ddylid eu defnyddio i hyrwyddo unrhyw feysydd polisi a gwmpesir gan y Cytundeb. Dylai Arweinydd Plaid Cymru gyfyngu ar ei gwestiynau yn ystod sesiynau cwestiynau Gweinidogion (cwestiynau wedi'u cyflwyno neu gwestiynau atodol) i gwestiynau sy'n ymwneud â materion etholaethol neu ranbarthol.

**6.** Ni fydd Aelodau Dynodedig yn cael eu galw i ofyn Cwestiynau'r Llefarwyr i Weinidogion portffolio a dylent gyfyngu ar eu cwestiynau (cwestiynau wedi'u cyflwyno a chwestiynau atodol) yn ystod sesiynau cwestiynau Gweinidogion i gwestiynau sy'n ymwneud â materion etholaethol neu ranbarthol.

**7.** Caiff nifer y cwestiynau heb rybudd gan lefarwyr Plaid Cymru eu cyfyngu i ddau fesul sesiwn cwestiynau Gweinidogol.

## Datganiadau llafar

**8.** Ni fydd Arweinydd Plaid Cymru nac Aelodau Dynodedig yn cael eu galw i gyfrannu at ddatganiadau llafar Gweinidogion ar bynciau heblaw'r rheini sy'n ymwneud â materion etholaethol neu ranbarthol. Caiff Arweinydd Plaid Cymru gyfrannu at ddatganiadau gan y Prif Weinidog.

## Dadleuon

**9.** Caiff Arweinydd Plaid Cymru ac Aelodau Dynodedig gyfrannu at ddadleuon, ond dylent arfer synnwyr cyffredin o ran yr hyn sy'n briodol a dylent ddatgan unrhyw fuddiannau o ystyried eu rolau o dan y Cytundeb.

**10.** Mae'r Pwyllgor Busnes wedi cytuno y bydd cymhareb yr amser ar gyfer cynnal dadl wrthblaid a ddyrennir i Blaid Cymru yn cyfateb i nifer yr Aelodau yng ngrŵp Plaid Cymru ac eithrio Arweinydd Plaid Cymru a nifer yr Aelodau Dynodedig. Bydd yr amser ychwanegol sy'n cael ei ryddhau yn sgil hyn yn cael ei ailddyrannu ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn rhai grŵp, er enghraifft dadleuon Aelodau.

# Ystyriaethau pellach

**11.** Bydd effeithiau ymarferol eraill ar weithrediad busnes y Senedd sy'n deillio o'r Cytundeb hefyd yn cael eu hadolygu. Bydd y canllawiau hyn yn cael eu diweddaru yn ôl yr angen i adlewyrchu unrhyw oblygiadau pellach.

# Atodiad: Aelodau Dynodedig (Mehefin 2023)

| Siân Gwenllian AS | Cefin Campbell AS | Rhun ap Iorwerth AS |
|---|---|---|
| • Prydau ysgol am ddim<br>• Gofal plant<br>• Ail gartrefi<br>• Cwmni adeiladu cenedlaethol<br>• Diogelwch adeiladau<br>• Eiddo a rhenti teg<br>• Digartrefedd<br>• Cwmni ynni sero net<br>• Adolygiad o lifogydd<br>• Sero net<br>• Cyfalaf a gwydnwch o ran llifogydd<br>• Bioamrywiaeth<br>• Trafnidiaeth gyhoeddus<br>• Athrawon cyflenwi a phlant sy'n derbyn gofal | • Llygredd amaethyddol<br>• Plannu coed<br>• Cynllun Ffermio Cynaliadwy<br>• Strategaeth bwyd cymunedol<br>• Arfor a'r Cymoedd<br>• Adolygu trefniadau partneriaethau rhanbarthol<br>• Ysgol Lywodraethu Genedlaethol<br>• Diwygio'r dreth gyngor<br>• Dyfodol gofal cymdeithasol<br>• Ardollau twristiaeth lleol<br>• Prosiect 2050<br>• Addysg cyfrwng Cymraeg | • Diwygio'r Senedd<br>• Y Comisiwn Cyfansoddiadol |

| | | |
|---|---|---|
| • Dyddiadau tymhorau ysgol<br>• Diwygio cymwysterau<br>• Y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil<br>• Y Cwricwlwm<br>• Rhwydwaith Seren<br>• Mynd i'r afael â thlodi ac anghydraddoldeb<br>• Iechyd meddwl<br>• Anabledd<br>• Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol<br>• LHDTC+<br>• Strategaeth ddiwylliant<br>• Goblygiadau cyllidol newydd gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy<br>• Y gyllideb | • Safonau'r Gymraeg<br>• Enwau lleoedd Cymraeg<br>• Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol<br>• Caffael<br>• Darlledu<br>• Cymorth ariannol ar gyfer y cyfryngau | |